

Atebion i Gwestiynau nas Cyrhaeddwyd yn y Sesiwn Llawn Answers to Questions not Reached in Plenary

6 Gorffennaf 1999

6 July 1999

[R] yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant

[R] signifies the Member has declared an interest

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Problems of Disrepair in Schools

Q6 Lynne Neagle: What plans are there to tackle problems of disrepair in schools in Wales? (OAQ306VB)

The First Secretary: Provision of basic credit approvals (BCAs) in the annual local government revenue settlement is £42.9 million for 1999-2000. Planned provision for 2000-2001 and 2001-2002 rises to £44.4 million and £54.9m million respectively . It is for individual local authorities to decide how much of their BCAs to allocate to education and thereafter which schools should benefit in the light of local needs and priorities.

Problemau Dadfeilio Ysgolion

C6 Lynne Neagle: Pa gynlluniau sydd ar y gweill i fynd i'r afael â phroblemau dadfeilio ysgolion yng Nghymru? (OAQ306VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yn y taliad refeniw blynyddol ar gyfer llywodraeth leol, ceir darpariaeth o £42.9 miliwn ar gyfer taliadau credyd sylfaenol cymeradwy 1999-2000. Mae'r ddarpariaeth arfaethedig ar gyfer 2000-2001 yn codi i £44.4 miliwn ac i £54.9 miliwn yn 2001-2002. Penderfyniad i'r awdurdodau lleol eu hunain yw faint o'u taliadau credyd sylfaenol maent yn ei ddyrannu i addysg ac, wedi hynny, pa ysgolion a ddylai elwa yn ôl y blaenoriaethau a'r anghenion lleol.

Private Finance Initiative Bids

Q7 Brian Gibbons: What are the specific criteria by which PFI bids will be judged against their public comparator in Wales? (OAQ307VB)

The First Secretary: The criterion for judging PFI bids against a public sector comparator is value for money for the public purse.

Cynigion Menter Cyllid Preifat

C7 Brian Gibbons: Pa feini prawf penodol a ddefnyddir i farnu cynigion menter cyllid preifat yn erbyn eu cymharydd cyhoeddus yng Nghymru? (OAQ307VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Y maen prawf a ddefnyddir i farnu cynigion menter cyllid preifat yn erbyn cymharydd yn y sector cyhoeddus yw gwerth am arian i bwrs y wlad.

Examinations for Welsh Sixth-formers

Q8 Jonathan Morgan: Does the First Secretary have any plans to replace the current A-levels with another form of examination for Welsh sixth-formers? (OAQ296VB) **Withdrawn.**

Arholi Plant Chweched Dosbarth Cymru

C8 Jonathan Morgan: A oes gan y Prif Ysgrifennydd gynlluniau i ddisodli'r Safonau Uwch presennol gyda ffordd arall o arholi plant chweched dosbarth Cymru? (OAQ296VB) **Tynnwyd yn ôl.**

Small Companies (1997 and 1998)

Q9 Michael German: How many companies of fewer than 50 employees were established in Wales in 1997 and 1998 and how many closed in the same years? (OAQ310VB)

The First Secretary: The most recent published figures, which are for 1997, give 6,240 VAT registrations and 6,320 de-registrations in Wales. Nearly all of these businesses have fewer than 50 employees. There are no official figures on the numbers of start-ups and closures of the businesses in Wales which are not VAT-registered.

Cwmnïau Bach (1997 a 1998)

C9 Michael German: Faint o gwmnïau gyda llai na 50 o weithwyr a sefydlwyd yng Nghymru ym 1997 a 1998 a faint o gwmnïau felly a ddaeth i ben yn yr un blynnyddoedd? (OAQ310VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'r ffigyrau diweddaraf, ar gyfer 1997, yn dangos bod 6,240 o gwmnïau wedi cofrestru ar gyfer TAW a 6,320 wedi dadgofrestru yng Nghymru. Mae bron pob un o'r busnesau hyn yn cyflogi llai na 50 o weithwyr. Nid oes unrhyw ffigyrau swyddogol sy'n dangos faint o fusnesau sy'n cael eu sefydlu a faint sy'n dod i ben yng Nghymru nad ydynt wedi eu cofrestru ar gyfer TAW.

Financial Problems in Hospitals

Q10 David Melding: What action is the First Secretary taking to resolve the financial problems now being experienced by half of all hospitals in Wales? (OAQ295JS) **Withdrawn.**

Problemau Ariannol mewn Ysbytai

C10 David Melding: Pa gamau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i ddatrys y problemau ariannol sy'n wynebu hanner yr ysbytai yng Nghymru? (OAQ295JS) **Tynnwyd yn ôl.**

Spending Limits for Local Authorities

Q11 Nick Bourne: Does the First Secretary intend to propose that spending limits for local authorities and other public bodies in Wales be relaxed to help match EU funds? (OAQ289JS)

The First Secretary: I refer the Assembly Member to my previous answer to question 4 (OAQ303VB) tabled by Pauline Jarman, which was given in Plenary today.

Cyfyngiadau Gwario ar yr Awdurdodau Lleol

C11 Nick Bourne: A yw'n fwriad gan y Prif Ysgrifennydd gynnig llacio'r cyfyngiadau gwario ar yr awdurdodau lleol a'r cyrff cyhoeddus eraill yng Nghymru er mwyn helpu i sicrhau arian cyfatebol ar gyfer cronfeydd yr UE? (OAQ289JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Cyfeiriaf yr Aelod at fy ateb blaenorol i gwestiwn 4 (OAQ303VB) a gyflwynwyd gan Pauline Jarman ac a roddwyd gerbron y Sesiwn Llawn heddiw.

Eastern Bay Link Road

Q12 Lorraine Barrett: What plans are in place for the completion of the Eastern Bay link road? (OAQ297VB)

The First Secretary: The scheme is estimated to cost £158 million and the responsibility lies with Cardiff County Council as local highway authority. It is being supported under the transport grant arrangements and is receiving funding of £2.4 million towards continuing preparation costs including work involved in relocating Cardiff Heliport in 1999-2000. Bids for 2000-2001 will be invited shortly and any bid for the Eastern Bay link will need to be considered alongside the other bids we receive for the available grant resources.

Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae

C12 Lorraine Barrett: Pa gynlluniau sydd ar y gweill i gwblhau ffordd gyswllt Dwyrain y Bae? (OAQ297VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Amcangyfrifir y bydd y cynllun yn costio £158 miliwn a Chyngor Sir Caerdydd, fel yr awdurdod priffyrdd lleol, sy'n gyfrifol amdano. Caiff ei gefnogi gan y trefniadau grantiau trafnidiaeth ac mae'n derbyn cyllid o £2.4 miliwn tuag at y costau paratoi parhaus gan gynnwys y gwaith sy'n gysylltiedig ag adleoli Hofrenfa Caerdydd yn 1999-2000. Bydd ceisiadau ar gyfer 2000-2001 yn cael eu gwahodd maes o law a bydd yn rhaid ystyried unrhyw gais a ddaw i law ar gyfer ffordd gyswllt Dwyrain y Bae ar y cyd â cheisiadau eraill a dderbyniwn am yr adnoddau grant sydd ar gael.

Effeithiau Glo Brig

C13 Rhodri Glyn Thomas: A yw'n fwriad gan y Prif Ysgrifennydd gyflwyno argymhellion i ddiogelu cymunedau rhag effeithiau glo brig ar sail y canllawiau a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Alban? (OAQ308JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Fe'ch cyfeiriaf at yr ateb a roddwyd gan Peter Law ar 30 Mehefin (Cofnod 30.06.99, t.6). Wrth baratoi Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Mwynau 3 (Cymru) Cloddio am Lo a Gwaredu Gwastraff Glo, mae'n bwysig rhoi ystyriaeth lawn i farn y rheini yr ymgynghorir â hwy a bod y canllaw yn rhoi ystyriaeth briodol i amgylchiadau Cymru. Mae'r canllaw yn cael ei baratoi gyda gofal mawr, yng ngoleuni'r hyn a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn Lloegr a'r Alban. Caiff y Pwyllgor Llywodraeth Leol, yr Amgylchedd, Cynllunio, Tai a Thrafnidiaeth gyfle i ystyried y canllaw cyn ei gyhoeddi.

Effects of Opencast Mining

Q13 Rhodri Glyn Thomas: Does the First Secretary intend making recommendations to safeguard Welsh communities from the effects of opencast mining based on the guidelines issued by the Scottish Office? (OAQ308JS)

The First Secretary: I refer you to the answer given by Peter Law on 30 June (RoP 30.06.99, p.6). In taking forward Mineral Planning Guidance Note 3 (Wales) Coal Mining and Colliery Spoil Disposal it is important that the views of consultees are taken into account and that the note properly addresses circumstances in Wales. Careful consideration is being given to the preparation of the guidance in the light of that recently published in England and Scotland. The Local Government, Environment, Planning, Housing and Transport Committee will have the opportunity to consider the guidance before it is issued.

National Lottery Funding

Q14 John Griffiths: Will the First Secretary consider acting to achieve a more equitable distribution of national lottery funding in Wales? (OAQ302VB)

The First Secretary: Recent changes in legislation and in the policy directions given to lottery distributors should ensure that distribution of lottery funds in Wales is more evenly spread. We will be monitoring distribution in Wales and discussing with each of the distributors the steps they are taking to redress any imbalance.

Arian y Loteri Genedlaethol

C14 John Griffiths: A wna'r Prif Ysgrifennydd ystyried gweithredu i sicrhau bod arian y loteri genedlaethol yn cael ei ddosbarthu'n decach yng Nghymru? (OAQ302VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Dylai'r newidiadau diweddar mewn deddfwriaeth ac yn y cyfarwyddiadau polisi a roddir i ddosbarthwyr y loteri sicrhau bod dosbarthiad cyllid y loteri yn fwy cyson drwy Gymru. Byddwn yn monitro'r dosbarthiad yng Nghymru ac yn trafod gyda phob un o'r dosbarthwyr pa gamau maent yn eu cymryd i unioni unrhyw anghysonder.

Administration of European Programmes

Q15 Elin Jones: Will the First Secretary give an assurance that there will be no impact on the administration of Objective 1 and other European programmes as a result of the management and payments of the European Social Fund being a matter for the Department for Education and Employment? (OAQ290JS)

The First Secretary: I am in discussion with the Secretary of State for Education and Employment about arrangements under which responsibility for payments and financial management of ESF in Wales would transfer to the National Assembly for Wales from 2000. The terms, which will, of course, need to be acceptable to the Assembly, will ensure that full control of the entire financial process will be exercised here in Wales.

Gweinyddiaeth Rhaglenni Ewropeaidd

C15 Elin Jones: A wna'r Prif Ysgrifennydd roi sicrwydd na fydd y ffaith mai mater i'r Adran Addysg a Chyflogaeth fydd rheolaeth a thaliadau Cronfa Gymdeithasol Ewrop yn cael unrhyw effaith ar weinyddiaeth rhaglen Amcan 1 a rhaglenni Ewropeaidd eraill? (OAQ290JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wrthi'n cynnal trafodaethau gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg a Chyflogaeth am y trefniadau ar gyfer trosglwyddo'r cyfrifoldeb dros daliadau a rheolaeth ariannol y Gronfa yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o 2000 ymlaen. Bydd y telerau, y bydd yn rhaid iddynt fod yn dderbyniol i'r Cynulliad wrth gwrs, yn sicrhau mai yma yng Nghymru yr arddelir y rheolaeth lawn dros y broses ariannol yn ei chrynswth.

Royal Mint (Review)

Q16 Jane Davidson: Will the First Secretary make an early statement on the potential economic impact of the review of the Royal Mint carried out last year? (OAQ312JG)

The First Secretary: Decisions about the future of the Royal Mint are for HM Treasury and the outcome of the review is yet to be published. The Mint is a major employer in one of the poorest areas of Wales. Jobs at the Mint are high quality and high skilled and it is important that we retain them. I have ensured that the Treasury is fully aware of this.

Y Bathdy Brenhinol (Adolygiad)

C16 Jane Davidson: A wna'r Prif Ysgrifennydd ddatganiad yn fuan ar effaith economaidd bosibl yr adolygiad o'r Bathdy Brenhinol a gynhaliwyd y llynedd? (OAQ312JG)

Y Prif Ysgrifennydd: Trysorlys Ei Mawrhydi sy'n gyfrifol am benderfyniadau ynghylch dyfodol y Bathdy Brenhinol ac nid yw canlyniad yr adolygiad wedi ei gyhoeddi eto. Mae'r Bathdy yn gyflogwr mawr, a hynny yn un o ardaloedd tlotaf Cymru. Mae swyddi'r Bathdy yn rhai sgilgar a safonol ac mae'n bwysig ein bod yn dal gafael arnynt. Yr wyf wedi sicrhau bod y Trysorlys yn gwbl ymwybodol o hyn.

Castle Quays Development (Swansea)

Q17 David Lloyd: In light of increasing public concern in relation to the Castle Quays development in Swansea, will the First Secretary make a statement on this development? (OAQ304JS)

The First Secretary: This is a matter for Swansea City Council, which granted planning permission for this development early this year. I have no observations to make on the proposal.

Datblygiad Castle Quays (Abertawe)

C17 David Lloyd: Yng ngoleuni pryder cynyddol ymhlith y cyhoedd mewn perthynas â datblygiad Castle Quays yn Abertawe, a wna'r Prif Ysgrifennydd ddatganiad ynghylch y datblygiad hwn? (OAQ304JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mater i Gyngor Dinas Abertawe yw hyn; hwy a roddodd ganiatâd cynllunio ar gyfer y datblygiad hwn yn gynharach eleni. Nid oes gennyf unrhyw sylwadau ar y cynnig.

Farm Incomes

Q18 Kirsty Williams: What steps will the First Secretary take to maintain farm incomes following reform of hill livestock compensatory allowance payments? (OAQ309VB)

The First Secretary: The consultation paper on HLCA reform explained that we are in discussion with the Commission about the transitional arrangements that will apply during the year 2000 to try to maintain farmers' cash flow.

The new area-based compensation scheme will be an integral part of a seven-year programme and subject to evaluation during the life of the programme. We are committed to the task of helping the industry to adapt so that agriculture in Wales is sustainable and viable. The development of the agri-food strategy is an important element of this policy.

Incwm Ffermydd

C18 Kirsty Williams: Pa gamau y bydd y Prif Ysgrifennydd yn eu cymryd i gynnal incwm ffermydd yn sgîl adolygu taliadau lwfans iawndal da byw tir uchel? (OAQ309VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr oedd y papur ymgynghori ynghylch diwygio'r Lwfans hwn yn egluro ein bod wrthi'n trafod y trefniadau trosiannol ar gyfer y flwyddyn 2000 gyda'r Comisiwn er mwyn ceisio cynnal llif arian ffermwyr.

Bydd y cynllun iawndal fesul ardal newydd yn rhan annatod o raglen saith mlynedd a bydd yn cael ei werthuso yn ystod oes y rhaglen. Yr ydym wedi ymrwymo i'r gwaith o helpu'r diwydiant i addasu fel bod amaethyddiaeth yng Nghymru yn gynaliadwy ac yn hyfyw. Mae datblygu'r strategaeth bwyd-amaeth yn elfen bwysig o'r polisi hwn.

Centre for Sporting Excellence

Q19 Janet Ryder: What plans does the First Secretary have to develop a centre for sporting excellence in north Wales? (OAQ353VB)

The First Secretary: The Sports Council for Wales decides on the location, development and funding of individual centres of excellence. The council itself already operates two centres of excellence in Wales: the Welsh Institute for Sport based at Sophia Gardens in Cardiff and the National Watersports Centre for Wales at Plas Menai on the Menai Straits near Bangor.

The Sports Council is working in partnership with Gwynedd Council to develop a national centre for competitive sailing at Pwllheli. The Sports Council also supports the National Canoe Centre at Tryweryn, which hosted the World Championships in 1996.

The English Sports Council operate a National Centre for Mountain Activities at Plas-y-Brenin in Gwynedd.

In addition to these major centres of excellence, the Sports Council for Wales has provided financial support for local, but substantial, facilities such as the floodlit athletics track at Deeside College, the international standard ice rink in Flintshire and the new Mold stand at Wrexham football stadium, and the North Wales Tennis Centre at Wrexham.

Canolfan Ragoriaeth Chwaraeon

C19 Janet Ryder: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i ddatblygu canolfan ragoriaeth chwaraeon yng ngogledd Cymru? (OAQ353VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Cyngor Chwaraeon Cymru sy'n penderfynu ar leoliad, datblygiad a chyllido canolfannau rhagoriaeth unigol. Mae'r cyngor ei hun eisoes yn cynnal dwy ganolfan ragoriaeth yng Nghymru: Athrofa Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Sophia yng Nghaerdydd a Chanolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Cymru ym Mhlas Menai ar lan y Fenai ger Bangor.

Y mae'r Cyngor Chwaraeon yn gweithio mewn partneriaeth gyda Chyngor Gwynedd i ddatblygu canolfan genedlaethol ar gyfer hwylio cystadleuol ym Mhwllheli. Mae'r Cyngor Chwaraeon hefyd yn cefnogi'r Ganolfan Ganwio Genedlaethol yn Nhryweryn, lle cynhaliwyd Pencampwriaethau'r Byd yn 1996.

Mae Cyngor Chwaraeon Lloegr yn cynnal Canolfan Weithgareddau Mynydd Genedlaethol ym Mhlas-y-Brenin yng Ngwynedd.

Yn ogystal â'r prif ganolfannau rhagoriaeth hyn, mae Cyngor Chwaraeon Cymru wedi cynnig cefnogaeth ariannol i gyfleusterau lleol, ond sylweddol, fel trac athletau llifoleuedig Coleg Glannau Dyfrdwy, y ganolfan sglefrio o safon ryngwladol yn Sir y Fflint, stand yr Wyddgrug yn stadiwm pêl-droed Wrecsam, a Chanolfan Dennis Gogledd Cymru yn Wrecsam.